# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
[ceredigion.gov.uk](ceredigion.gov.uk)

01/11/2023

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / remotely via video conference, Dydd Iau, 9 Tachwedd 2023 am 9.30 am i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Gweddi**

**2.** **Ymddiheuriadau**

**3.** **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion. (Tudalennau 3 - 6)**

**4.** **Aelodaeth**

**5.** **Aled Rumble Cyflwyniad- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

**6.** **Diweddariad parthed niferoedd sy'n astudio Addysg Grefyddol**

**7.** **Diweddariad cyfarfod CYSAgau Cymru - bydd ymateb i'r ymgynghoriad ac adnabod cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i'r aelodau. (Tudalennau 7 - 24)**

**8.** **Unrhyw Fusnes Arall**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

L Edwards

**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion Cyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHEREDIGION** a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda
**ddydd Mercher, 05 Gorffennaf 2023**

**YN BRESENNOL:**
Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorwyr Keith Evans a John Roberts

Yn cynrychioli Undebau'r Athrawon: Miss Joyce Howells (NASUWT) (Cadeirydd)

Enwadau Crefyddol: Mrs Anna Uruska – Yr Eglwys Gatholig
Y Parchedig Ddr John Tudno Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Y Parchedig Aled Davies, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Aelod Cyfetholedig: Mr Lyndon Lloyd MBE

Yn cynrychioli'r Sector Cynradd: Mrs Non Jones McEvoy

Hefyd yn bresennol: Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(1:30pm- 3:10pm)

1 **Gweddi**
Dechreuodd y Cyfarfod gyda'r Parchedig Aled Davies yn arwain y Pwyllgor mewn gweddi.

Dywedwyd mai hwn fyddai cyfarfod diwethaf y Parchedig Aled Davies gan y byddai'n gadael yr ardal am ei fod yn symud i Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Llundain. Bu i bawb a oedd yn bresennol ddiolch iddo am ei waith a dymuno'n dda iddo at y dyfodol.

2 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Ifan Davies, Keith Henson a Ceris Jones ynghyd â Mrs Alwen Roberts, yr Athro Densil Morgan, y Parchedig Mark Ansell a'r Athro Catrin Williams am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

3 **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2023 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
CYTUNWYD i gadarnhau bod Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2023 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim.

4 **Croesawu aelodau newydd**

Rhoddwyd diweddariad am aelodaeth y Pwyllgor gan gynnwys cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol, cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol a'r Aelodau Cyfetholedig. Hefyd, dywedwyd bod Ms Medi James wedi rhoi gwybod nad oedd bellach am ddod yn aelod o'r Pwyllgor oherwydd newidiadau yn ei hamgylchiadau. Byddai llythyr arall felly yn cael ei anfon at y Crynwyr yn gofyn am aelod newydd i ddod i'r cyfarfodydd ar eu rhan.

Hefyd, byddai llythyr yn cael ei ysgrifennu at Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gofyn am aelod newydd i gynrychioli'r enwad ar y CYSAG. Awgrymwyd y gallai'r Parchedig Guto Gwynfor fod yn opsiwn.

5 **Gohebiaeth**

Yn unol â'r cais a wnaed, roedd llythyr wedi dod i law oddi wrth Mr Colin Partridge a oedd yn amlinellu ei gefndir. Cytunwyd y dylid ei wahodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

6 **Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Laurie Hughes, Athrawes Ymgynghorol Lles i'r cyfarfod i roi gwybodaeth am y newidiadau diweddar i Addysg Ryw a'r gwaith o gyflwyno Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Bwriad hyn oedd sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol bolisi addas o ran Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb y gallai'r ysgolion ei fabwysiadu a'i addasu i'w cefnogi nhw wrth iddynt ddilyn y cwricwlwm newydd gan ddarparu cymorth, gwybodaeth, cysondeb ac eglurder. Yn ystod ei chyflwyniad PwyntPwer, darparodd y wybodaeth ganlynol:-

- Y cefndir
- Beth yw Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb?
- Y cynnwys o ran polisi
- Y sefyllfa bresennol
- Y gefnogaeth i ysgolion

Yn dilyn trafodaeth am gynnwys y cyflwyniad, CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd gan nodi bod angen dull gweithredu cytbwys a chydweithredol rhwng y plant, y rhieni, a'r gymuned ehangach o ran y mater hwn.

7 **Y diweddaraf am y niferoedd sy'n astudio Addysg Grefyddol**

Ystyriwyd y niferoedd a oedd yn astudio Addysg Grefyddol. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y ffigurau yn gadarnhaol, a chytunwyd y gellid defnyddio'r data hwn i werthuso'r sefyllfa yng nghyswllt y niferoedd a fyddai'n astudio'r pwnc yn y dyfodol.

8 **Cyflwyniad E-sgol**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Llifon Ellis, Pennaeth Strategol E-ysgol i'r cyfarfod i roi cyflwyniad am E-sgol. Diolchodd yr aelodau iddo am gyflwyniad diddorol.

9 **Cymdeithas CYSAGau Cymru**

Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion ddiweddariad am gyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cytunwyd i nodi'r sefyllfa bresennol.

**10 Cais am eitemau / Y Flaenraglen Waith**

- Gofyn i'r Athro Catrin Williams am wybodaeth am yr adnoddau y gall y prifysgolion eu cynnig i gynorthwyo â'r cwricwlwm newydd
- Derbyn diweddariad gan Miss Nia Jones am daith disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Gyfun Aberaeron i Wlad Pwyl
- Gofyn i ddisgyblion annerch y pwyllgor gan sôn am eu profiad o astudio Addysg Grefyddol
- Derbyn diweddariad am Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb

Dywedodd Mr Lyndon Lloyd MBE fod gan Geredigion y nifer uchaf o blant mewn tlodi. Nodwyd mai Mr Gareth Lewis, y Cydlynydd Amddifadedd a Heriau Gwledig oedd yn gyfrifol am y gwaith hwn o fewn yr awdurdod ac y dylai Mr Lloyd gysylltu ag ef yn uniongyrchol i rannu ei bryderon.

11 **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 9:30am ddydd Iau 09 Tachwedd 2023.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) a gynhaliwyd ar 09 Tachwedd 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Mae CCYSAGauC yn llunio rhaglen gyffrous ar gyfer ei chynhadledd yn 2024 a fydd yn cynnwys seminarau rhyngweithiol ar-lein rhad ac am ddim, yn ogystal â digwyddiad diwrnod y gynhadledd gorfforol. Hoffem glywed gan eich CYS am y math o seminarau yr hoffech gael eu cynnwys.

Byddem yn ddiolchgar i dderbyn eich ymatebion trwy holiadur ar-lein (dolenni isod). Dyddiad cau: 30 Tachwedd. (wele yr holiadur isod ar gyfer aelodau heb fynediad at ddeunydd ar-lein)

https://forms.office.com/e/23GF0c9RUG

1.Beth yw enw eich awdurdod lleol?

[ ]

2.Graddiwch yr awgrymiadau seminar canlynol ar gyfer **ymarferwyr** yn eich awdurdod lleol (o 1 yn amherthnasol iawn i 5 yn berthnasol iawn).

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Beth mae CGM yn edrych fel yn y blynyddoedd cynnar? | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Dulliau cynllunio cwricwlwm CGM | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cynnydd mewn CGM: datblygu'r sgiliau cyfannol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cynnydd mewn CGM: Asesu | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Agweddau at addysgeg yn CGM | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| CGM Gwrthrychol, beirniadol a pliwraliaethol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Athroniaeth i Blant (P4C) yn CGM | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Mynd i'r afael â'r argyfwng niferoedd: codi proffil Astudiaethau Crefyddol TGAU a Safon Uwch | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Darparu CGM ystyrlon yn ysgolion arbennig | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

3.Graddiwch yr awgrymiadau seminar canlynol ar gyfer **aelodau CYS** yn eich awdurdod lleol (o fod 1 yn amherthnasol iawn i 5 yn berthnasol iawn).

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sut olwg sydd ar CYS effeithiol? | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Aelodau newydd CYS: Y cyfan sydd angen i chi ei wybod | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

4.Graddiwch yr awgrymiadau seminar canlynol ar gyfer **Cynghorwyr CGM a chynrychiolwyr ALl** yn eich awdurdod lleol (o fod 1 yn amherthnasol iawn i 5 yn berthnasol iawn).

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgrifennu Adroddiad Blynyddol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Creu CYS effeithiol: datblygu cylch gorchwyl a chodau ymddygiad newydd | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

5.Graddiwch yr awgrymiadau seminar canlynol ar gyfer **Myfyrwyr ANG ac AGA** yn eich awdurdod lleol (o 1 yn amherthnasol iawn i 5 yn berthnasol iawn).

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Beth yw CGM yn y Cwricwlwm i Gymru | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

6.A oes gennych unrhyw awgrymiadau seminar eraill nad ydynt eisoes wedi’u cynnwys ar gyfer **ymarferwyr** yn eich awdurdod lleol? Rhowch syniadau isod.

7.A oes gennych unrhyw awgrymiadau seminar eraill nad ydynt eisoes wedi’u cynnwys ar gyfer **aelodau CYS** yn eich awdurdod lleol? Rhowch syniadau isod.

8.A oes gennych unrhyw awgrymiadau seminar eraill nad ydynt eisoes wedi’u cynnwys ar gyfer **cynghorwyr CGM a chynrychiolwyr ALl** yn eich awdurdod lleol? Rhowch syniadau isod.

9.A oes gennych unrhyw awgrymiadau seminar eraill nad ydynt eisoes wedi’u cynnwys ar gyfer **Myfyrwyr ANG ac AGA** yn eich awdurdod lleol? Rhowch syniadau isod.

10.Os hoffech chi rannu unrhyw sylwadau eraill yn ymwneud â'r seminarau, gwnewch hynny yma. Diolch!.

**From:** A Parry (Llanishen High School)
**Sent:** 25 October 2023 16:34
**To:**
**Subject:** WJEC Consultation on Religious Studies GCSE Proposals

Annwyl Glercod CYSAG/CYSau,

Mae'r ymgynghoriad ar y cymhwyster newydd arfaethedig, Astudiaethau Crefyddol TGAU (dechrau dysgu 2026) yn agor heddiw ar wefan CBAC. Mae'n bwysig fod ymarferwyr yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ac yn rhannu eu barn ar y cynigion drwy'r arolwg ar-lein.

Felly, a fyddech cystal â rhannu'r dolenni isod gyda'ch CYSAG/CYS ac athrawon.

Dolen i'r ddogfen ymgynghorol: gcse-religious-studies-qualification-outline-consultation-version-w.pdf (cbac.co.uk)

Dolen i'r arolwg adborth: Cymwysterau TGAU wedi'u Gwneud-i-Gymru a chymwysterau perthynol: Ymgynghoriad ar amlinelliadau o'r pynciau TGAU: ASTUDIAETHAU CREFYDDOL Survey (surveymonkey.co.uk)

**(SYLWER Y BYDD YR AROLWG YN CAEL EI YSTYRIED YNG NGHYFARFOD Y CYSAG AR 09 TACHWEDD, YN ANFFODUS METHU COPÏO'R AROLWG GAN FOD ANGEN I CHI YMATEB AR Y DUDALEN GYNTAF I SYMUD YMLAEN I'R NESAF)**

# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Astudiaethau Crefyddol arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
  - deall profiadau dynol yn well
  - dysgu sut gall amrywiol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a dehongliadau nhw eu hunain a rhai pobl eraill
  - datblygu gwerthfawrogiad o sut mae cyd-destunau'n dylanwadu ar lunio naratifau a chynrychioliadau
  - datblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, blwraliaethol ac amrywiol cymdeithasau
  - gwerthfawrogi'r rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys credoau crefyddol ac anghrefyddol a bydolygon
  - datblygu dealltwriaeth gyffredin o amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau yn eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach
  - archwilio a meithrin dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o’r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau ac egwyddorion sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol.

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
  - ymgysylltu â gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol cynyddol eang a dwfn
  - gwneud penderfyniadau wedi'u hategu mewn cyd-destunau mwy cymhleth
  - dod i ddeall y byd o'u cwmpas mewn ffordd sy'n gynyddol glir ac ystyrlon
  - symud ymlaen i ymwybyddiaeth sy’n canolbwyntio’n fwy ar fywydau pobl eraill, yn eu cyd-destun cymdeithasol eu hunain ac mewn mannau eraill yn y byd
  - defnyddio tystiolaeth i lunio ac ategu ateb, a chysylltu hynny â sut mae canlyniadau ymholiad wedi'u cynrychioli a'u dehongli.

Mae'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cael ei lunio ar sail ystyriaethau pwnc-benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Astudiaethau Crefyddol[3]. Bydd y cymhwyster yn:

---

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/
[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/

- darparu cyfleoedd i ddeall credoau, dysgeidiaethau, arferion, argyhoeddiadau athronyddol, gwerthoedd a phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol o safbwynt lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- darparu cyfleoedd i chwilio am atebion i'r cwestiynau athronyddol pennaf fel pwrpas ac ystyr bywyd
- darparu cyfleoedd i archwilio seiliau safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol a dylanwad argyhoeddiadau crefyddol ac anghrefyddol ar ein cymdeithas blwralistaidd ac amrywiol dros amser
- sicrhau bod gan ddysgwyr y sgiliau i archwilio materion athronyddol a moesol, myfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain, ac ar gredoau a gwerthoedd pobl eraill
- darparu cyfleoedd i ddatblygu empathi, creadigrwydd, chwilfrydedd, gwydnwch, goddefgarwch ac ymdeimlad o gynefin a phrofiadau dynol yn y byd naturiol.

Bydd y cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol hefyd yn seiliedig ar y cysyniadau sylfaenol eang canlynol, y mae sawl un ohonyn nhw'n treiddio trwy sawl uned i lefelau gwahanol o ehangder a dyfnder:

- Credoau
- Cymuned
- Cynefin
- Argyhoeddiadau athronyddol
- Arferion
- Dysgeidiaethau
- Gwerthoedd
- Bydolygon
- Y cwestiynau eithaf
- Daioni a drygioni
- Moeseg
- Hawliau dynol
- Bywyd ar ôl marwolaeth
- Stiwardiaeth
- Safbwyntiau crefyddol/anghrefyddol
- Amrywiaeth
- Hunaniaeth a pherthyn
- Ffydd ar waith
- Plwraliaeth

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster[4]

| |
|---|
| **Uned 1: Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol**<br>Arholiad ysgrifenedig<br>30% o'r cymhwyster |
| **Uned 2: Ffydd a chredo ar waith**<br>Asesiad di-arholiad<br>20% o'r cymhwyster<br>Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC |
| **Uned 3: Profiadau dynol a'r byd**<br>Arholiad ysgrifenedig<br>30% o'r cymhwyster |
| **Uned 4: Hawliau dynol**<br>Asesiad di-arholiad<br>20% o'r cymhwyster<br>Wedi'i marcio gan CBAC |

Cymhwyster unedol fydd hwn.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, ac Uned 4, sy'n uned derfynol, nid oes hierarchaeth na threfn addysgu benodol yn cael eu hawgrymu ar gyfer Unedau 2 a 3.


## Gwybodaeth am Unedau

### Uned 1 - Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol

**Pwrpas yr uned hon yw:**
- **archwilio credoau a bydolygon crefyddol ac anghrefyddol**
- **datblygu dealltwriaeth o amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau a moeseg**
- **dysgu sut gall amrywiol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a dehongliadau nhw eu hunain a rhai pobl eraill.**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol:

[4] Bydd pwyslais ar gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ysgogi cynnwys y fanyleb yn hytrach na chynnwys anghrefyddol oherwydd natur y pwnc





Asesir Uned 1 drwy arholiad, a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd arholiad ar gael i'r garfan gyntaf yn haf 2026. Bydd yr arholiad yn cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Gan fod hon yn uned sy'n rhagarweiniol ei natur, mae'n debygol y byddai pwyslais ar wybodaeth a dealltwriaeth ac y byddai AA1 felly yn debygol o fod â'r pwysoli uchaf. Byddai gweddill yr asesiad yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng AA2 ac AA3. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon, fodd bynnag gall canolfannau ddewis crefydd yr hoffent i'r dysgwyr ei hastudio. Bydd dysgwyr yn ateb cwestiynau ar gredoau crefyddol ac anghrefyddol yn ogystal â chwestiynau generig y gellid eu cymhwyso at y grefydd a ddewiswyd gan y ganolfan.

## Uned 2 - Ffydd a chredo ar waith

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- **archwilio credoau, athroniaethau a bydolygon crefyddol ac anghrefyddol**
- **myfyrio'n feirniadol ar eu credoau, gwerthoedd ac agweddau eu hunain a rhai pobl eraill mewn cyd-destun lleol, cenedlaethol a/neu fyd-eang**
- **datblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, blwraliaethol ac amrywiol cymdeithasau.**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol:




Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad.  Bydd tasgau'n cael eu rhyddhau ym mis Medi i'w cyflwyno yn y gyfres haf ganlynol; bydd tasgau ar gael am y tro cyntaf ym mis Medi 2026 i'w cyflwyno yn haf 2027. Bydd yr uned hon yn targedu AA2, AA3 ac AA4.  Mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA4 oherwydd yr elfen cymhwyso sgiliau sydd yn yr asesiad di-arholiad.


Bydd yr asesiad di-arholiad yn dilyn fformat ymholiad.  Bydd CBAC yn gosod thema ar gyfer yr asesiad di-arholiad. Bydd dysgwyr yn archwilio'r thema osod ac yn myfyrio ar eu credoau personol yn seiliedig ar y thema honno.  Yna, bydd dysgwyr yn ymchwilio credoau pobl eraill ar y thema osod ar raddfa leol a/neu genedlaethol a/neu fyd-eang.  Yn olaf, bydd dysgwyr yn myfyrio ar eu credoau eu hunain ar ôl ystyried credoau pobl eraill.  Bydd themâu'n newid bob blwyddyn. Y ganolfan fydd yn marcio'r asesiadau di-arholiad a CBAC yn eu  cymedroli. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth yn ystod y cam ymchwil ac ymchwilio a lefel uchel o reolaeth yn ystod y cam asesu ffurfiol. Ni phenderfynwyd eto ar yr amser a ganiateir ar gyfer yr asesiad. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon, fodd bynnag bydd canolfannau'n  dewis cred grefyddol neu anghrefyddol yr hoffent i'r dysgwyr ei hastudio. Gall dysgwyr ystyried y thema osod o'r safbwynt crefyddol a/neu anghrefyddol a astudiwyd ganddynt. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol.

## Uned 3 – Profiadau dynol a'r byd

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- **deall profiadau dynol a'r byd naturiol**
- **datblygu dealltwriaeth o ffactorau a fyddai'n gallu dylanwadu ar eu canfyddiadau a'u dehongliadau nhw eu hunain ac ar rai pobl eraill**
- **dysgu sut gall amrywiol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a dehongliadau nhw eu hunain a rhai pobl eraill**
- **archwilio sut a pham y gall dehongliadau fod yn wahanol**
- **dod i werthfawrogi sut mae cyd-destunau'n dylanwadu ar ddehongliadau**
- **datblygu dealltwriaeth feirniadol o amrywiaeth o ddehongliadau a chynrychioliadau sy'n deillio o amrywiaeth o dystiolaeth.**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol.





Asesir Uned 3 drwy arholiad, a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd arholiad ar gael i'r garfan gyntaf yn haf 2026. Bydd yr arholiad yn cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Bydd mwy o AA3 yn yr uned hon o gymharu ag Uned 1 oherwydd y pwyslais ar ddysgwyr i ddadansoddi, gwerthuso a llunio barn. Bydd dysgwyr yn archwilio cwestiynau mewn perthynas â phrofiad dynol a'r byd. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd.  Ni fydd opsiynau yn yr uned hon, fodd bynnag, gall dysgwyr ateb cwestiynau yng nghyd-destun y gredo grefyddol neu anghrefyddol a ddewisodd y ganolfan ei hastudio.

## Uned 4 – Hawliau dynol

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- **ymchwilio i fater moesegol a/neu foesol, hawliau dynol o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol**
- **datblygu ymwybyddiaeth o'u hawliau eu hunain, hawliau pobl eraill a datblygu ymrwymiad i gyfiawnder.**

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol:




Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad. Bydd yr asesiad di-arholiad yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf yn cael ei roi ar AA2 ac AA4 gan fod cymhwyso gwybodaeth/dealltwriaeth a sgiliau yn rhan o'r asesiad di-arholiad. Bydd dysgwyr yn dilyn proses ymholi, gan ddefnyddio deunyddiau ysgogi sy'n ymgysylltu. Bydd hyn yn cynnwys erthygl neu ddarn o adroddiad newyddion, a fydd wedi'i ddarparu gan CBAC. Bydd y deunyddiau ysgogi'n hybu ymwybyddiaeth o hawliau dysgwyr a hawliau pobl eraill, gan eu galluogi i archwilio a datblygu dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau a moeseg sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol. Bydd deunyddiau ysgogi a thasgau'n cael eu rhyddhau ym mis Medi ar gyfer eu cyflwyno yn gyfres haf ddilynol; byddan nhw ar gael am y tro cyntaf ym mis Medi 2026 i'w cyflwyno yn haf 2027. CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r asesiad di-arholiad. Ni phenderfynwyd eto ar yr amser a ganiateir ar gyfer yr asesiad di-arholiad. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth yn ystod y cam ymchwil ac ymchwilio a lefel uchel o reolaeth yn ystod y cam asesu ffurfiol. Ni fydd opsiynau yn yr uned hon, fodd bynnag, gall dysgwyr edrych ar y deunyddiau ysgogi ac ateb cwestiynau yng nghyd-destun credo grefyddol neu anghrefyddol y dewisodd y ganolfan ei hastudio. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 40% o’r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad; bydd CBAC yn gosod un asesiad di-arholiad (Uned 2), i'w farcio'n fewnol gan y ganolfan, a'i gymedroli'n allanol gan CBAC, a bydd CBAC yn gosod y llall (Uned 4) ac yn ei farcio'n allanol. Gallai hyn olygu rhai heriau o ran hydrinedd. Bwriadwn leihau'r heriau o ran hydrinedd drwy ryddhau tasgau ar gyfer y ddau asesiad di-arholiad ym mis Medi ym mlwyddyn academaidd eu cyflwyno. Bydd hynny wedyn yn rhoi hyblygrwydd i'r canolfannau ledaenu'r asesiadau ac i'w cynnal ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.

Bydd un asesiad di-arholiad (Uned 2) yn cynnwys tasg lle mae dysgwyr yn ymchwilio i gredoau pobl eraill. Rydym yn rhagweld y bydd rhaid materion o ran hydrinedd gan nad yw'r bobl addas ar gael iddyn nhw yn eu hardal leol.  O ran yr hydrinedd, byddwn yn caniatáu i ddysgwyr ymchwilio credoau pobl mewn lleoliadau eraill h.y. ar raddfa leol a/neu genedlaethol a/neu fyd-eang, er enghraifft, ar-lein. Ar ben hynny, bydd yr asesiad di-arholiad arall (Uned 4) yn cynnwys deunyddiau ysgogi a chwestiynau y bydd CBAC wedi'u darparu, lle mae'r un mynediad ar gael i ddysgwyr i'r deunyddiau ysgogi.  Mae'r cyferbyniad hwn yn arddull yr asesiadau di-arholiad yn cynnig cydbwysedd cyffredinol ac mae hynny wedyn yn cael ei ystyried yn ddull priodol o ran hydrinedd.

Ni phenderfynwyd eto faint o amser asesu y byddwn yn ei ddyrannu i bob un o'r ddau asesiad di-arholiad, ond mae hyn yn rhywbeth allweddol i'w ystyried wrth i ni anelu at geisio lleihau'r effaith ar addysgu a dysgu.  Rydym yn rhagweld y bydd lefel isel o reolaeth ar gyfer y ddau asesiad di-arholiad, yn ystod y cam ymchwilio, fel y gall dysgwyr gael profiad ymholi dilys. Mae'n debygol y bydd lefel y rheolaeth yn ystod y cam asesu ffurfiol yn uchel. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau dibynadwyedd, bydd cyfarwyddyd ar gael o ran yr hyn y gall dysgwyr ei ddefnyddio wrth ymateb i'r tasgau asesu.  Bydd yr asesiadau di-arholiad yn bodloni'r gofyniad yn y Meini Prawf Cymeradwyo bod dysgwyr yn gallu dangos ystod o sgiliau ymholi ac ymchwilio priodol gan gynnwys y gallu i fyfyrio.

Credwn y dylai'r cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru.  Bydd Uned 1 yn cyflwyno Astudiaethau Crefyddol yn fras, gan ganiatáu i ddysgwyr astudio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol amrywiol yn fras, gan ategu'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, blwraliaethol ac amrywiol cymdeithasau'.  Yn Uned 2 bydd dysgwyr yn gallu ymgysylltu â'u ffydd a'u credoau eu hunain a rhai pobl eraill ar raddfa leol a/neu genedlaethol a/neu fyd-eang. Bydd hyn yn cynnig cyd-destun byd go iawn i'r hyn mae'r dysgwyr yn ei ddysgu, ac yn cefnogi'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o safbwyntiau amrywiol eu hardal leol, Cymru a'r byd yn ehangach'.  Bydd Uned 3 yn archwilio cwestiynau'n ymwneud â phrofiad dynol a'r byd o safbwynt crefyddol ac anghrefyddol, gan ategu'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'rhoi cyfle i ddysgwyr ddod i werthfawrogi sut mae cyd-destunau'n dylanwadu ar lunio naratifau a chynrychioliadau'. Bydd Uned 4 yn caniatáu i ddysgwyr ymchwilio materion hawliau dynol, gan ategu'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig i 'annog dysgwyr a datblygu dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r

amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau a moeseg sydd wrth wraidd ac yn llywio cymdeithas ddynol.

Credwn fod yr asesiadau di-arholiad arfaethedig ar gyfer Unedau 2 a 4 yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau dibynadwyedd yr asesiadau di-arholiad, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu dros amser. Datblygir meini prawf marcio ar gyfer y ddwy uned. Yn achos Uned 2, bydd athrawon yn derbyn pecyn o gefnogaeth a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y canolfannau a dros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith y ganolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd.

O ran pwrpas a chynnwys Unedau 1 a 3, credwn mai asesiad drwy arholiad yw'r asesiad mwyaf dilys, ac y gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i wneud y mwyaf o'r dilysrwydd. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle y bo'n briodol gwneud hynny, byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siwr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Astudiaethau Crefyddol Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

### Pwrpas

1. Rhaid i **TGAU Astudiaethau Crefyddol**:

1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu trwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
1.4 galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

### Nodau

2. Rhaid i TGAU Astudiaethau Crefyddol:

2.1 ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag astudiaethau crefyddol
2.2 darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

3. Rhaid i'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol gefnogi Dysgwyr i:

3.1 ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau, gwerthoedd, dysgeidiaethau, arferion ac argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol

3.2 ymgysylltu â phrofiadau crefyddol ac anghrefyddol cyferbynio

3.3 datblygu chwilfrydedd am bwrpas bywyd a'u cyfraniad iddo

3.4 archwilio ffyrdd y mae argyhoeddiadau moesegol ac athronyddol crefyddol ac anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiad a chymdeithas ddynol

3.5 archwilio tystiolaeth o ystod amrywiol o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol sy'n ymwneud â materion athronyddol, moesegol a moesol

3.6 gwerthfawrogi natur gymhleth, luosogol ac amrywiol cymdeithas drwy ddeall yr angen am oddefgarwch, gwytnwch, ac empathi

3.7 myfyrio ar eu gwerthoedd, eu credoau a'u safbwyntiau eu hunain a rhai pobl eraill

3.8 cyd-fynd ag agweddau ar ganllawiau statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn galluogi Dysgwyr i:

3.8.1 ddatblygu hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill

3.8.2 creu cysylltiadau â'r byd ehangach a'r byd naturiol

3.8.3 datblygu creadigrwydd a chwilfrydedd

3.8.4 archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas

3.9. o safbwynt lluosog, gwneud synnwyr o brofiadau dynol, y byd naturiol, a'u lle eu hunain ynddo, a'u dehongli, gan ddeall gwahanol grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn eu hardal eu hunain ac yng Nghymru, gan ddatblygu eu hymdeimlad o gynefin, yn ogystal ag yn y byd ehangach

## Amcanion Asesu

Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o gredoau, arferion a dysgeidiaethau crefyddol ac anghrefyddol. | 25% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o gredoau, dysgeidiaethau, arferion, gwerthoedd ac argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol. | 25% |
| **AA3** | **Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau** ar amrywiaeth o faterion moesegol a moesol, gan gynnwys persbectif personol, ac archwilio gwerthoedd o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol | 25% |
| **AA4** | **Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau** a thechnegau yn ymarferol sy'n berthnasol i astudio astudiaethau crefyddol. | 25% |

## Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Astudiaethau Crefyddol** fod yn unedol.

10. Rhaid i'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol ddangos yr amrediad yng nghyfran y marciau a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob Uned.

11. Rhaid i'r TGAU Astudiaethau Crefyddol gynnwys y trefniadau asesu a ganlyn:

11.1. Rhaid cael dau asesiad arholiad sydd:

11.1.1. yn cael eu gosod a'u marcio gan y corff dyfarnu

11.1.2 yn cyfrif am 60% o'r cymhwyster

11.2 Rhaid i amseriad yr arholiadau gael ei osod gan y corff dyfarnu

11.3 Rhaid cael dau asesiad di-arholiad sy'n cyfrif am 40% o'r cymhwyster;

11.3.1 un asesiad di-arholiad wedi'i osod gan y corff dyfarnu, wedi'i farcio'n fewnol gan y Ganolfan, a'i gymedroli'n allanol gan y corff dyfarnu

11.3.2 un asesiad di-arholiad wedi'i osod a'i farcio'n allanol gan y corff dyfarnu

11.3.3 rhaid gallu cyflwyno'r ddau asesiad di-arholiad yn ddigidol

12. Rhaid i un uned arholiad fod ar gael yn haf 2026 ar gyfer y garfan gyntaf o Ddysgwyr sy'n gwneud y cymhwyster

13. Rhaid i'r corff dyfarnu bennu ei reolau o ran ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol yn unol â’r Amodau Cydnabod TGAU